



Cofnodion Pleidleisio

8 Awst 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 24 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

I'm writing to you to ask for Neil McEvoy's entire voting record while he was a member of the Senedd, including dates. Could you please send it to this email address.

Gellir gweld ein hymateb isod.

Roedd Neil McEvoy yn Aelod o'r Senedd yn ystod y Bumed Senedd (Mai 2016-Ebrill 2021).

Mae cofnodion pob Cyfarfod Llawn ar gael ar wefan y Senedd. Dyma linc i'r dudalen sydd â'r wybodaeth yn ymwneud â chyfarfodydd y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn ystod y Bumed Senedd:

[Pori drwy gyfarfodydd - Cyfarfod Llawn - Y Bumed Senedd](#)

Ar gyfer pob cyfarfod lle cynhaliwyd pleidlais, mae dogfen 'Crynodeb o Bleidleisiau' sy'n cofnodi pleidlais pob Aelod o'r Senedd yn ystod y cyfarfod hwnnw.

I gael gafael ar y wybodaeth, cliciwch ar ddyddiad cyfarfod ac yna cliciwch ar y linc i'r ddogfen 'Crynodeb o Bleidleisiau'. Mae hwn ar gael fel arfer tuag at waelod agenda'r cyfarfod perthnasol. Bydd hyn yn agor dogfen PDF lle byddwch yn gallu gweld cofnodion pleidleisio Neil McEvoy, ynghyd â chofnodion pleidleisio Aelodau eraill o'r Senedd yn ystod y cyfarfod hwnnw.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon mewn fformat arall, er enghraifft ar ffurf crynodeb o bleidleisio yn ystod y Bumed Senedd ar gyfer Aelodau unigol.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2021 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Yn gywir

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF